

Cenhadaeth ein cenedl: Bwrdd Cyflawni

Cylch gorchwyl - diwygiwyd Mehefin 2019

Diben

Mae'r Bwrdd Cyflawni'n rheoli ac yn symud ymlaen busnes gweithredol y rhaglen waith a amlinellir yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (y rhaglen). Mae'r Bwrdd yn monitro'r hyn a gyflawnir a'r perfformiad, gan sicrhau bod prosesau cadarn yn cael eu dilyn, ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenderfyniadau i'w cymeradwyo gan Fwrdd Newid y rhaglen. Gall y Bwrdd uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd Newid ar gyfer sicrwydd ychwanegol lle bo angen, ac mae'n helpu i nodi risgiau'r rhaglen ac yn awgrymu mesurau i fynd i'r afael â nhw.

Tasgau allweddol

Bydd y Bwrdd yn:

- monitro'r hyn a gyflawnir yn erbyn cerrig milltir y rhaglen ar gyfer partneriaid a Llywodraeth Cymru;
- gwneud argymhellion mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion lefel uchel y rhaglen a'r camau gweithredu cysylltiedig;
- argymhell gwaith i'w uwchgyfeirio er mwyn cael cymeradwyaeth pellach; a
- darparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth o ran cyfathrebu â phartneriaid, gan sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol wedi'u cynnwys ac yn wybodus drwy gydol y broses o weithredu'r rhaglen.

Rolau a chyfrifoldebau

Mae aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- ddarparu cyngor ac arweiniad ar gyfeiriad y rhaglen; a
- rhaeadru gwybodaeth, camau gweithredu a phenderfyniadau sy'n deillio o gyfarfodydd y Bwrdd i'r timau a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

Amllder y cyfarfodydd

Bydd y Bwrdd yn cwrdd yn fisol fel arfer, ond gall hyn amrywio i gyd-fynd ag adegau penderfynu allweddol yn y rhaglen. Lle bo angen, gellir gwneud penderfyniadau y tu allan i'r cyfarfodydd.

Ysgrifenyddiaeth

Tîm y rhaglen yng Nghyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru fydd yn darparu cymorth gweinyddol i'r Bwrdd.

Aelodaeth

Mae aelodau'r Bwrdd Newid yn cynnwys cynrychiolwyr ar lefel Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Dirprwy Gyfarwyddwr, ac ar lefel gyfatebol o'r haen ganol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Esgobaethol, y Consortia Addysg Rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Sefydliad/rôl
Aelodau
Estyn
Cymwysterau Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
Consortiwm Canolbarth y De (CSC)
Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)
Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
Consortiwm Gogledd Cymru (GwE)
Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) (i'w gadarnhau)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) (i'w gadarnhau)
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol Cymru
Colegau Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru (i'w gadarnhau)
Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol (i'w gadarnhau)
Llywodraeth Cymru - Addysg, Cynllunio Busnes a Llywodraethiant
Llywodraeth Cymru - Cwricwlwm
Llywodraeth Cymru - Effeithiolrwydd Ysgolion
Llywodraeth Cymru - Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Llywodraeth Cymru - Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru - y Gymraeg
Llywodraeth Cymru - Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru - Ymgysylltu - Ysgolion a Phobl Ifanc
Llywodraeth Cymru - Archwilio Mewnol
Llywodraeth Cymru - Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes